# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 109(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg**

Heledd Fychan (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddata cyfrifiad 2021 am sgiliau Cymraeg sy'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi gostwng am yr ail ddegawd yn olynol?

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd mewn achosion o grŵp A streptococcus mewn ysgolion?

Rhun ap Iorwerth (Ynys Mon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymateb y Llywodraeth i fygythiadau o weithredu diwydiannol ar draws GIG Cymru, ac ar ei chynlluniau i geisio osgoi'r fath o weithredu drwy negodi?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

(30 munud)

**NDM8093** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig am Fil a fyddai'n gwneud darpariaeth i annog defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yng Nghymru, a gwella mynediad at addysg a gwasanaethau yn BSL.

2. Yn nodi mai pwrpas y Bil fyddai:

a) cael gwared ar y rhwystrau sy'n bodoli i bobl fyddar a'u teuluoedd mewn addysg, iechyd, gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethau cymorth ac yn y gweithle;

b) cryfhau saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y modd y maent yn ymwneud â BSL;

c) gweithio tuag at sicrhau nad yw pobl fyddar sy'n defnyddio BSL yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg;

d) sicrhau bod gan gymunedau byddar lais wrth ddylunio a darparu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion;

e) sefydlu Comisiynydd BSL a fydd yn:

(i) llunio safonau BSL;

(ii) sefydlu panel cynghori BSL;

(iii) llunio adroddiadau bob pum mlynedd yn BSL, Cymraeg a Saesneg ar sefyllfa BSL yn y cyfnod hwnnw;

(iv) darparu arweiniad a phroses i gyrff cyhoeddus hyrwyddo a hwyluso BSL yn eu priod barthau;

f) sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion;

g) ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd ar eu cynnydd o ran hyrwyddo a hwyluso BSL drwy eu cylch cofnodi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;

h) rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol BSL sy'n disgrifio'r hyn y mae adrannau Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i hyrwyddo'r defnydd o BSL.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau – Cyfraith Mark Allen: Diogelwch dŵr ac atal boddi

(30 munud)

**NDM8157** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau, 'Cyfraith Mark Allen Diogelwch dŵr ac atal boddi', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Awst 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Tachwedd 2022.

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith – Adroddiad ar weithrediad y mesurau interim diogelu'r amgylchedd

(30 munud)

**NDM8158** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: 'Adroddiad ar weithrediad y mesurau interim diogelu'r amgylchedd', a osodwyd ar 28 Medi 2022.

Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Tachwedd 2022.

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Adolygiad annibynnol o ofal cymdeithasol plant

(30 munud)

**NDM8160** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu adolygiad annibynnol o ofal cymdeithasol plant yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol plant heb fod angen adolygiad annibynnol a fyddai'n cymryd adnoddau gwerthfawr ac yn tarfu ar y gwaith rhagorol a wneir gan y rhai sy’n darparu gwasanaethau i blant agored i niwed, eu rhieni a'u gofalwyr.

## 10 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Ardrethi busnes ar gyfer llety hunanddarpar

(30 munud)

**NDM8161** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried y pryderon difrifol a fynegwyd gan ddarparwyr llety hunanddarpar ledled Cymru ynghylch y cyfnod asesu ar gyfer penderfynu ar gymhwystra ar gyfer cymhwyso ar gyfer ardrethi busnes yn 2022-2023, a diwygio'r rheoliadau yn unol â hynny.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod:

a) bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n eang ynghylch newidiadau i'r meini prawf a ddefnyddir i gategoreiddio llety hunanddarpar fel eiddo annomestig at ddibenion treth lleol, a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2023.

b) na chaiff cydymffurfiaeth â'r meini prawf newydd ei hasesu tan ar ôl 1 Ebrill 2023.

c) bod y newidiadau hyn yn rhan o becyn ehangach o fesurau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cymunedau lleol llewyrchus, lle y gall pobl fforddio byw a gweithio gydol y flwyddyn.

***[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]***

**Gwelliant 2** Sian Gwenllian (Arfon)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ddarparwyr llety hunanddarpar, sydd dan bwysau o ganlyniad i blatfformau fel AirBnB.

2. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnal argymhellion yr ymgynghoriad diweddar i sicrhau y gellir gwahaniaethu rhwng llety hunanddarpar gwirioneddol ac eiddo domestig o safbwynt trethi lleol.

## 11 Cyfnod Pleidleisio

## 12 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8159** Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

Breuddwydion atomig: pŵer niwclear a ffydd ddall mewn technoleg sy'n heneiddio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 30/11/2022 i'w hateb ar 07/12/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

**Peter Fox** *Mynwy*

1 OQ58833 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi ym Mynwy?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OQ58839 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd ers i'r Senedd basio cynnig ym mis Gorffennaf yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried sefydlu cynllun peilot incwm sylfaenol ymhlith gweithwyr mewn diwydiant trwm fel rhan o'r broses o drosglwyddo Cymru i economi ddi-garbon?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

3 OQ58829 **(e)**

Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r sector gwirfoddol yng Ngogledd Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

4 OQ58832 **(e)**

Pa sgyrsiau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyd-aelodau'r Cabinet am gefnogi pobl sy'n gadael gofal?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ58830 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i bobl hŷn yn cael eu cam-drin wrth lunio'r strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

6 OQ58835 **(w)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn Nwyfor Meirionnydd?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

7 OQ58821 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gweithredu LHDTC+ i Gymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

8 OQ58828 (w)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Swyddfa'r Post a'r Post Brenhinol ynglŷn â sichrau parhad eu gwasanaethau yng Nghanol De Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

9 OQ58838 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gryfhau hawliau pobl anabl?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ58823 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru am gynyddu ymwybyddiaeth pobl hŷn o'u hawliau?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

11 OQ58810 (e)

Pa gynigion sydd gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad pobl sydd â nam ar eu golwg a nam ar eu clyw at wasanaethau cyhoeddus?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

12 OQ58813 (e)

Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i sicrhau nad yw pobl sydd ag anableddau dysgu yn wynebu gwahaniaethu?

## CWNSLER CYFFREDINOL A GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

1 OQ58814 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r Arglwydd Ganghellor am ddatganoli cyfiawnder?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

2 OQ58831 (e)

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei roi i Lywodraeth Cymru ar sut y gall gefnogi ymgyrch gwirionedd a chyfiawnder Orgreave?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

3 OQ58827 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r goblygiadau i Gymru o ddyfarniad yr Goruchaf Lys ynglŷn â hawl yr Alban i alw refferendwm ar ei dyfodol cyfansoddiadol?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

4 OQ58818 **(w)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi diweddariad ynglŷn â diwygio'r Tribiwnlysoedd Cymreig?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ58834 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei roi i Lywodraeth Cymru yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys nad oes gan Senedd yr Alban y grym i ddeddfu ar gyfer refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

6 OQ58819 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith eraill ynglŷn â datganoli cyfiawnder ieuenctid i Gymru?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

7 OQ58836 **(w)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud ynghylch a yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn addas i bwrpas?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

8 OQ58817 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o fynediad at gyfiawnder yng Nghymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

9 OQ58816 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud ynghylch a fydd y trefniadau rhyng-lywodraethol newydd a gynigir gan yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn ddigon agored i brosesau craffu?

10 **Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ58844 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei roi i Lywodraeth Cymru ynglŷn â statws cyfreithiol a chyfansoddiadol Aelodau dynodedig?

11 **Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ58846 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r effaith ar drigolion Cymru yn dilyn ymateb terfynol Llywodraeth y DU i'r Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol?

## COMISIWN Y SENEDD

1 **Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

OQ58820 **(w)**

Beth yw polisi'r Comisiwn o ran darparu cynnyrch mislif am ddim ar ystâd y Senedd?

2 **Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ58824 **(e)**

Sut mae'r Comisiwn yn sicrhau ei fod yn hawdd i staff gael gafael ar gynhyrchion misglwyf am ddim ar ystâd y Senedd?

3 **Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ58837 **(e)**

A wnaiff y Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei strategaeth ar gyfer lleihau biliau ynni ar ystâd y Senedd?

4 **Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

OQ58815 **(e)**

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cynllun cymorth aberth cyflog i geir trydan ar gyfer staff y Comisiwn a staff Aelodau o'r Senedd?